



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd i Gymru 2015 – 2020





Llun clawr: Pryd 'alfresco' yng Nghrucywel
Y dudalen hon: Coginio cocos a cregyn
gleision yng Ngŵyl Fwyd Môr Bae Aberteifi

1. Cefndir

Mae Twristiaeth Bwyd yn cael ei ddiffinio gan Lywodraeth Cymru fel 'unrhyw weithgarwch sy'n hyrwyddo profiad bwyd o safon uchel, unigryw, lleol a chynaliadwy sy'n gysylltiedig â lle arbennig.

Mae 'Tuag at Dwf Cynaliadwy y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru 2014-2020' yn cydnabod pwysigrwydd y gadwyn cyflenwi bwyd lleol i'r diwydiant bwyd yng Nghymru, gan gynnwys y gwasanaeth manwerthu, lletygarwch/gwasanaethau bwyd lleol a manwerthu uniongyrchol (siopau fferm, marchnadoedd a gwyliau).

Yn 2009 lansiodd Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru y 'Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd i Gymru' ar y cyd, gan gydnabod y posibilrwydd ar gyfer twf o fewn y sector hwn. Roedd y cynllun hwn yn para tan 2013.

Mae Bwyd a Thwristiaeth yn arbennig o bwysig yng Nghymru oherwydd pwysigrwydd economaidd y ddau sector. Mae Twristiaeth Bwyd yn ddull o dynnu cryfderau cyrchfan leol ynghyd drwy adeiladu ar y berthynas rhwng y diwydiant lletygarwch/arlwyo a chynhyrchwyr bwyd a diod lleol.

Mae bwyd yn rhan hanfodol o'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, gan mai dyma'r pwynt cyswllt mwyaf cyffredin i ymwelwyr. Mae cynnyrch lleol a lleoedd amrywiol o safon i fwyta ac yfed yn bwysig iawn i ymwelwyr wrth ymweld ag unrhyw ardal (Prosiect sgiliau bwyd a diod Hydref 2011).

Mae tueddiadau ymwelwyr yn nodi bod y diddordeb mewn bwyd yn parhau i godi ar raddfa hynod, ac

mae bellach yn cyrraedd y tu hwnt i'r haenau uwch o gymdeithas, i'r boblogaeth gyffredinol, ac oherwydd hyn mae amrywiol strategaethau wedi'u datblygu i annog y tueddiad hwn.

Mae twristiaeth bwyd yn golygu helpu ymwelwyr i ddod i wybod am ein bwydydd lleol, unigryw – nid dim ond gobeithio y byddant yn dod o hyd iddynt ohonynt eu hunain. Mae'n gysylltiedig â'r gwahaniaeth rhwng rhanbarthau – hyrwyddo ein cynnyrch lleol gwych ac adrodd hanes ei daith i'n bwrdd, fel bod ymwelwyr tro cyntaf yn teimlo eu bod yn cysylltu â'r ardal a'u bod yn awyddus i ddod yn ôl am fwy.

Mae sicrhau bod bwyd lleol a rhanbarthol yn ein siopau ac ar ein bwydlenni yn rhoi manteision uniongyrchol ar unwaith i'n heconomi leol. Dylai ffermwyr, cynhyrchwyr, cyflenwyr, bwytai, caffis a thafarndai a darparwyr llety gysylltu â'i gilydd a'r diwydiant twristiaeth i wella'r wybodaeth am fwyd sydd ar gael i ymwelwyr a sicrhau eu bod yn gwneud dewis doeth. Mae marchnata prydau unigryw, digwyddiadau lleol, eich prif gynnyrch, cenhadon bwyd a lleoliadau sy'n ennill gwobrau yn golygu mwy o wario gan ymwelwyr, datblygu economaidd cynaliadwy, ac – yn bwysicaf oll – cwsmeriaid bodlon.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth 'Partneriaeth ar gyfer Twf' ar gyfer Twristiaeth ym mis Mehefin 2013. Mae'r strategaeth yn rhoi gweledigaeth gyffredinol ac yn pennu amcanion ar gyfer twf yn y diwydiant twristiaeth hyd at 2015 – 2020. Roedd y strategaeth yn nodi dull o weithio oedd yn cael ei arwain gan y cynnyrch o ran datblygu a marchnata twristiaeth

yng Nghymru. Mae bwyd yn rhan annatod o brofiad yr ymwelydd, a bydd Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd 2014 yn targedu'r pump o feysydd a nodir yn y strategaeth – Hyrwyddo brand Cymru, datblygu'r cynnyrch a'r bobl, creu lle a gwella perfformiad.

2. Sefyllfa Bresennol

Mae'r gweithgarwch hyd yma wedi canolbwyntio ar y camau a nodwyd yn y 'Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd' 2009. Mae'r rhain wedi datblygu drwy weithgarwch sy'n cael ei gydlynw ar lefel ranbarthol drwy'r pedwar grŵp bwyd ranbarthol, Ffres yn y De-orllewin, Bwyd Gogledd Cymru a Sôn am Fwyd yn y Canolbarth a'r Deddwyrain. Mae'r gweithgarwch wedi canolbwyntio ar gydweithio ac adeiladu cysylltiadau â phartneriaethau lleol. Mae Grwpiau Rheoli Cyrchfannau megis Ynys Môn a'r Parciau Cenedlaethol hefyd yn datblygu partneriaethau i ganolbwyntio ar ddatblygu twristiaeth bwyd yn eu hardaloedd.

Mae ymdrechion wedi'u gwneud i nodi, cyd-gysylltu a chydweithio gyda'r prosiectau twristiaeth bwyd lleol niferus sy'n cael eu hariannu drwy'r Rhaglen Ddatblygu Gwledig. Mae'r Is-adran Fwyd wedi cynnal tri digwyddiad rhwydweithio Twristiaeth Bwyd ar y cyd â Rhwydwaith Gwledig Cymru er mwyn nodi'r prosiectau hyn a rhannu gwybodaeth.

Mae cynhyrchwyr bwyd a busnesau lletygarwch yng Nghymru wedi elwa yn ddiweddar o fuddsoddiad trwy Gynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth Croeso Cymru, a bydd Cronfa Cymunedau'r Arfordir a'r cyfleoedd cyllido hyn, yn ogystal â chylch newydd y Rhaglen Ddatblygu Gwledig yn parhau ymhell i gyfnod y cynllun gweithredu hwn.

3. Cyfleoedd

Mae Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr (GBDVS)¹ 2013 yn nodi bod 89 miliwn o ymweliadau dydd gan dwristiaid sy'n byw ym Mhrydain wedi'u gwneud i gyrchfannau yng Nghymru, gan olygu gwariant o £3,061 miliwn. Mae bwyta allan yn 40% o'r gwariant hwn – £1,219 miliwn.

- Mae bwyd yn elfen bwysig o wariant cyffredinol, ond mae Cymru y tu ôl i gystadleuwyr eraill o ran perfformiad.
- Mae Ymwelwyr â Chymru yn ystyried bwyd fel un o'r agweddau lleiaf pwysig, y tu ôl i siopa, ond yn dal i gael 8.8 allan o 10 (Ymwelwyr sy'n aros yn y DU).
- Yn 2012, roedd Bwyta ac Yfed yn 14% o gyfanswm y gwariant ar wyliau domestig yng Nghymru ar gyfer ymwelwyr sy'n aros, ac mae hyn yn codi i 39% ar gyfer ymwelwyr dydd (GBDVS)².

Mae gwaith ymchwil diweddar gan Scotland Food and Drink yn dangos, yn gyffredinol, bod ymwelwyr â'r Alban yn gwario oddeutu 21% o'u harian gwyliau ar fwyta ac yfed, dros 20c o bob £1. Golyga hyn bod yr Alban yn cynhyrchu dros £2 filiwn y dydd drwy dwristiaeth bwyd a diod, a dros £1,500 y funud!

Mae'r canlynol wedi'u nodi fel cyfleoedd posibl ar gyfer y sector Twristiaeth a Lletygarwch yng Nghymru i fanteisio ar y galw am fwyd a diod lleol, a'r diddordeb ynddo:

- i. I fod yn rhan o'r map Twristiaeth Bwyd mae angen i Gymru fanteisio ar y profiad o fwyd lleol o ansawdd

1 <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/great-britain-day-visits-survey/?skip=1&lang=cy>

2 <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/great-britain-tourist-survey/?skip=1&lang=cy>

- da, er mwyn cynnig profiad Cymreig dilys i ymwelwyr.
- ii. Mae datblygu cysylltiadau rhwng y sectorau Bwyd a Thwristiaid yn ei gwneud yn bosib i sicrhau bod cymaint â phosib o'r incwm yn cael ei gadw yn yr ardal a'r canlyniad o luosi'r effaith ar Economi Cymru.
 - iii. Mae gan gydweithio a datblygu cadwyni cyflenwi bwyd lleol y posibilrwydd o godi proffil Cymru fel cyrchfan fwyd.

4. Y Dyfodol – 2015 a thu hwnt

Mae'r posibilrwydd o ddatblygu Twristiaeth Bwyd yng Nghymru yn eang ac yn rhoi'r cyfle i gysylltu ag ystod eang o sefydliadau partner, ac felly dylai cydweithio a chydweithredu fod yn rhan ganolog o bob gweithgarwch.

Y nod gyffredinol yw codi ymwybyddiaeth o Fwyd a Diod Cymru a sicrhau bod yr wybodaeth am Fwyd a Diod Cymru ar gael yn ehangach i fusnesau ac ymwelwyr â Chymru.

Ein nod, erbyn 2020, yw sicrhau bod twristiaeth bwyd yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau Croeso Cymru.

Yr Her: 'Codi proffil Cymru fel cyrchfan Twristiaeth Bwyd o safon uchel'

Y Nod yw:

- Gwellu Mynediad i Ymwelwyr at Fwyd a Diod Cymru ac ymwybyddiaeth ohono.
- Annog busnesau lletygarwch yng Nghymru i gyrchu bwyd a diod lleol.
- Sicrhau bod mwy o Fwyd a Diod o Gymru ar fwydlenni ac mewn siopau.
- Nodi bylchau mewn sgiliau o ran gwybodaeth, gyrchu a pharatoi bwyd a diod lleol.

Bydd Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd 2015-2020 yn ychwanegu at y gweithgareddau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n deillio o Gynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd 2009 – 2013. Bwriad y Cynllun Gweithredu hefyd yw llywio a darparu arweiniad ar ddatblygiad prosiectau a chynigion twristiaeth bwyd yn y dyfodol.

Mae'r Is-adran Bwyd a Croeso Cymru wedi nodi cyllid ar y cyd i gyflawni'r cynllun, fydd yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau yn berthnasol ochr yn ochr â, er enghraifft, datblygu prosiectau yn y cylch newydd o Gyllid Ewropeaidd.

Bydd Croeso Cymru yn parhau i ddatblygu ei gynnwys bwyd a diod ar wefan Croeso Cymru a chynnwys bwyd a diod mewn ymgyrchoedd marchnata yn y dyfodol.

Mentrau a nodwyd:

- Gweithgaredd hyrwyddo i ychwanegu gwerth at y farchnad dwristiaeth, gwella profiad yr ymwelydd, hyrwyddo brand Cymru. Datblygu gwefan Croeso Cymru ymhellach o ran y cynnwys Bwyd fel y 'pwynt cyswllt cyntaf' ar gyfer defnyddwyr ac ymwelwyr â Chymru.
- Y wasg a chysylltiadau cyhoeddus i ddatblygu'r farchnad ymwelwyr, manteisio ar y twf yn y farchnad fwyd, cydweithio ar ymweliadau gan y wasg a'r cyfryngau yng Nghymru.
- Datblygu arbenigedd yn y sector twristiaeth bwyd, rhannu arfer gorau, gweithio gyda colegau arlwyio rhanbarthol ac eraill sy'n hyrwyddo bwyd a diod Cymru.
- Hyrwyddo manteision defnyddio bwyd a diod sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol mewn busnesau lletygarwch yng Nghymru.

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i godi safon y bwyd mewn digwyddiadau amlwg a mawr, gweithgareddau ac atyniadau.
- Cydweithio ar Wobrau ar gyfer y diwydiant Twristiaeth a Bwyd yng Nghymru.

Wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu hwn, nid ydym yn ceisio ailadrodd, neu yn wir ddisodli ymdrechion presennol rhanddeiliaid ond yn hytrach cael mwy o gydlynw a chyfeiriad rhwng pawb dan sylw.

Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd – Tasgau Blaenoriaeth

Cafodd y tasgau blaenoriaeth canlynol eu nodi o fewn y themâu isod:

1. Digwyddiadau a Gweithgareddau
2. Gwybodaeth
3. Datblygu ac Arbenigedd
4. Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata

Gweithgarwch	Arweinwyr a Phartneriaid	Amseru	Canlyniadau
1. Digwyddiadau a Gweithgareddau			
1.1 Cefnogi Digwyddiadau B2B ar gyfer y sector bwyd a lletygarwch.	Croeso Cymru Llywodraeth Cymru/Yr Is-adran Fwyd	Blwyddyn 1	3 digwyddiad erbyn Mawrth 2016 – cysylltu â 120 o fusnesau.
1.2 Annog integreiddio o ran y Gwobrau Bwyd a Diod Rhanbarthol yng Nghymru.	Llywodraeth Cymru Awdurdodau Lleol/Asiantaethau y sector Preifat a Chyhoeddus	Blwyddyn 2	Nodi'r amrywiaeth a nifer y Gwobrau Bwyd a Diod, a phartneriaid yn cael eu hannog i gydweithio i gyflwyno meini prawf cyson.
1.3 Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau (Gwyliau Bwyd, Llwybrau Bwyd ac ati.).	Llywodraeth Cymru Awdurdodau Lleol/Asiantaethau y sector Preifat a Chyhoeddus	Blwyddyn 2	Datblygu pecyn cynaliadwyedd ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau Twristiaeth Bwyd.
1.4 Cynnal digwyddiadau Rhwydwaith Twristiaeth Bwyd Cenedlaethol a Rhanbarthol.	Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 1	4 Digwyddiad erbyn Mawrth 2016.
1.5 Uned Digwyddiadau Mawr Croeso Cymru i annog pobl sy'n berchen ar leoliadau ar gyfer digwyddiadau ac sy'n trefnu digwyddiadau i ddefnyddio bwyd a diod lleol/o Gymru ar gyfer eu digwyddiadau pryd bynnag y mae'n bosibl.	Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 1 a 2	Annog pobl sy'n berchen ar leoliadau ar gyfer digwyddiadau ac sy'n trefnu digwyddiadau i ddefnyddio am bwyd a diod lleol pryd bynnag y mae'n bosibl.

Gweithgarwch	Arweinwyr a Phartneriaid	Amseru	Canlyniadau
1.6 Sicrhau cydweithio rhwng digwyddiadau bwyd sy'n deillio o'r cylch nesaf o'r Cynllun Datblygu Gwledig.	Llywodraeth Cymru Awdurdodau Lleol/ Asiantaethau y sector Preifat a Chyhoeddus	Blwyddyn 1	Codi ymwybyddiaeth ymysg y bobl sy'n datblygu prosiectau am gyfleoedd i gydweithio a rhannu arferion da.
2. Gwybodaeth			
2.1 Edrych ar y galw am wefan Twristiaeth Bwyd ar gyfer defnyddwyr trwy Gymru gyfan ac ystyried yr opsiynau.	Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 2	Casglu tystiolaeth i lywio penderfyniadau o ran y camau nesaf i ddatblygu'r wefan bwyd a diod.
2.2 Edrych ar Arfer Gorau wrth ddatblygu Cyfeiriaduron Cynhyrchwyr er mwyn rhoi gwybodaeth gyson i'r sector.	Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 2	Casglu tystiolaeth i lywio cyfeiriaduron cynhyrchwyr yn y dyfodol.
2.3 Comisiynu gwaith ymchwil sy'n gysylltiedig â thwristiaeth bwyd yng Nghymru o safbwynt y defnyddiwr a'r diwydiant er mwyn llywio y cynllunio yn y dyfodol.	Llywodraeth Cymru	Blwyddyn 2	Cytuno a chomisiynu'r gwaith ymchwil.
2.4 Datblygu pecyn gwybodaeth i roi arweiniad arfer gorau i randdeiliaid i hyrwyddo neges gyson mewn deunydd hyrwyddo a chanllawiau (e.e. canllawiau bwyta allan) ar faterion megis anghenion o safbwynt y Gymraeg ayb.	Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 1 a 2	Datblygu pecyn, gan gynnwys templadau a meini prawf i sicrhau bod cysondeb o ran cynhyrchu deunyddiau a chanllawiau hyrwyddo.
2.5 Cyfeirio'r diwydiant at wybodaeth am y cyllid a'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru drwy Croeso Cymru yr Is-adran Gyllido/Cymorth Busnes.	Llywodraeth Cymru	Blwyddyn 1 a pharhaus	Hysbysu'r sector am gyfleoedd i wneud cais am gyllid a chymorth i ddatblygu eu busnesau a twristiaeth bwyd yn benodol, ble y bo'n briodol.

Gweithgarwch	Arweinwyr a Phartneriaid	Amseru	Canlyniadau
3. Datblygu Arbenigedd			
3.1 Casglu gwybodaeth ynghyd am gyrchu lleol er mwyn llunio Canllawiau ar Gyrchu Lleol i roi gwybodaeth i randdeiliaid am y manteision i fusnesau wrth gyrchu a hyrwyddo bwyd a diod o Gymru.	Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 1 a 2	Dylunio pecyn cyrchu lleol.
3.2 Datblygu a threalu y prosiect Cymorth Busnes Twristiaeth Bwyd i gefnogi busnesau lletygarwch i wella eu twristiaeth bwyd a phrofiad yr ymwelydd.	Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 1	10 o fusnesau lletygarwch wedi'u cefnogi a'r prosiect wedi'i werthuso.
3.3 Nodi cyfleoedd i gydweithio gyda Cholegau AB yng Nghymru ar Fwyd a Lletygarwch.	Llywodraeth Cymru Colegau AB Diwydiant	Blwyddyn 2	3 cyfle wedi'u nodi.
3.4 Dechrau cyfleoedd i rannu arfer da o ran twristiaeth bwyd.	Llywodraeth Cymru Diwydiant Awdurdodau Lleol Colegau AB	Parhaus	Cynhyrchu 4 Astudiaeth Achos ym mlwyddyn 1.
3.5 Annog busnesau bwyd a diod i elwa o fentrau i leihau gwastraff a chynyddu elw.	WRAP CYMRU Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 2	Busnesau'n cael eu targedu gan WRAP a lleihau gwastraff.
3.6 Cysylltu â Thîm Graddio Ansawdd Croeso Cymru i annog busnesau ym maes twristiaeth i wella ansawdd y bwyd sy'n cael ei gynnig, eu hannog i ddefnyddio cynnyrch lleol ac yn gyffredinol eu hannog i fabwysiadu arferion da ym maes Twristiaeth Bwyd.	Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 1	Swyddogion Graddio i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd y maes Bwyd Twristiaeth wrth iddynt ymweld â busnesau a'u cynghori.

Gweithgarwch	Arweinwyr a Phartneriaid	Amseru	Canlyniadau
4. Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata			
4.1 Comisiynu Ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus i godi proffil Bwyd a Diod Cymru i gynulleidfa ehangach/newydd.	Llywodraeth Cymru	Blwyddyn 1/ Parhaus	Comisiynu Cysylltiadau Cyhoeddus.
4.2 Cydweithio ar ymweliadau gan y cyfryngau a newyddiadurwyr yng Nghymru.	Llywodraeth Cymru Diwydiant Awdurdodau Lleol Colegau AB	Parhaus	Proses wedi'i sefydlu i rannu gwybodaeth.
4.3 Nodi Cyfryngau Cymdeithasol priodol i hyrwyddo Twristiaeth Bwyd.	Llywodraeth Cymru Diwydiant Awdurdodau Lleol Colegau AB	Blwyddyn 1 a 2	Darparu sylfaen dystiolaeth i lywio y defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol yn y dyfodol i hyrwyddo Twristiaeth Bwyd.
4.4 Darparu hyrwyddwyr i'r sector Bwyd a Diod a darparu platfform er mwyn iddynt godi proffil Bwyd a Diod Cymru.	Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 1 a 2	Cefnogi 10 o hyrwyddwyr i godi proffil Bwyd a Diod Cymru.
4.5 Cynnwys Bwyd a Diod Cymru mewn ymgyrchoedd marchnata Croeso Cymru yn y dyfodol.	Llywodraeth Cymru Diwydiant	Blwyddyn 1	Bwyd a diod i fod yn rhan o ymgyrchoedd marchnata yn y dyfodol.

